**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 23 Ebrill 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Adrian Crompton, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr/Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau. Estynnodd y Dirprwy Lywydd groeso i Adrian Crompton a oedd yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### (i) BC100-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 19 Mawrth 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu ar gyfer eu cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC119-02 (Drafft) Dydd Mawrth 16 Ebrill 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Awgrymwyd dau ddiwygiad a byddent yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn Codi (BC119-02 Dydd Mawrth 16 Ebrill 2002)

3.1 **Paragraff 9.1** Cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd at benderfyniad blaenorol y Pwyllgor i gael gwared ar y sesiwn gwestiynau i'r Trefnydd yn y Cyfarfod Llawn ar ei gyfrifoldebau mewn meysydd heblaw busnes. Roedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad wedi gofyn a fyddai hynny'n

effeithio ar ei rôl ef fel Gweinidog dros Hawliau Dynol. Dywedodd Andrew George ei fod yn ymgynghori ag Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ynghylch union natur rôl y Gweinidog. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y mater eto pan fyddai'r sefyllfa'n glir.
**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

3.2 **Paragraff 11.1** Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes adrodd yn ôl ar y trafodaethau yr oeddent wedi'u cael o fewn eu pleidiau ynghylch trefniadau Aelodau ar gyfer ymweliad y Frenhines â Bangor ddydd Mawrth 11 Mehefin. Cafodd yr opsiynau canlynol eu hystyried:

- Gellid symud y Cyfarfod Llawn o'r dydd Mawrth i'r dydd Mercher.

- Gellid cynnal y Cyfarfod Llawn ar y dydd Mawrth mewn lleoliad addas ym Mangor.

- Gallai'r Aelodau a oedd am fynd i'r gwasanaeth ym Mangor hedfan yn ôl i'r Cyfarfod Llawn yng Nghaerdydd, cyn belled â bod y gost yn rhesymol.

Cynghorwyd y byddai cost cynnal Cyfarfod Llawn ym Mangor ar fyr rybudd yn uchel. Gan mai dim ond rhai o Aelodau'r Cynulliad a fyddai'n mynychu'r gwasanaeth ym Mangor, cytunodd y Pwyllgor nad oedd yn rhaid symud y Cyfarfod Llawn o'r prynhawn Mawrth i'r prynhawn Mercher. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud trefniadau i hedfan yr Aelodau yn ôl i Gaerdydd ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai cost llogi awyren tua'r un fath â chost teithio ar y ffordd. Cytunwyd y gallai'r agenda gael ei newid pe bai angen. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Clerc wneud y trefniadau priodol ac i ymchwilio i gost cynnal Cyfarfodydd Llawn yn y Gogledd yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r Cyfarfod Llawn ddydd Iau 13 Mehefin 2002 yn cael ei gynnal yn y prynhawn.

3.3 **Paragraff 3.2, Dydd Mawrth 11 Rhagfyr (BC361-01)** Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad a oedd wedi trafod y trefniadau ar gyfer y toriad cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003 gyda'i gydweithwyr. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod angen ystyried nifer o ffactorau cyn penderfynu ar hynny. Dywedodd y Clerc y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn cyngor gan y Comisiwn Etholiadol ynghylch materion yn gysylltiedig â'r etholiadau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried y mater eto ar ôl derbyn cyngor gan y Comisiwn Etholiadol.

3.4 **Paragraff 11.1, Dydd Mawrth 5 Mawrth (BC78-02)** Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes adrodd yn ôl ar y posibilrwydd o gynnal Cyfarfodydd Llawn rhwng 2pm a 6pm ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Gan na chafwyd unrhyw gonsensws yn y drafodaeth, dywedodd y Dirprwy Lywydd mai pleidlais rydd a fyddai'n adlewyrchu dymuniadau aelodau orau. Cytunodd y Pwyllgor ar hynny a gofynnodd am bapur a fyddai'n amlinellu nifer o opsiynau i'w hystyried.
**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**
Dim

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

BC121-02 i BC124-02

4.1 Nododd aelodau'r Pwyllgor Busnes gynnwys y llythyrau a anfonwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ynghylch defnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i swyddogion y Cabinet ac Ysgrifenyddiaeth y Siambr gwrdd er mwyn cytuno ar y dull mwyaf effeithiol o ddarparu copïau o'r llythyrau ar gyfer y Pwyllgor Busnes.
**Gweithredu: Swyddogion y Cabinet ac Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gwrdd.**

BC125-02 i BC126-02

4.3 Nododd y Pwyllgor gynnwys y negeseuon e-bost gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch defnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer gwahanol orchmynion.

**5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

**6. Pwyllgorau**

BC127-02
6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfarfod ychwanegol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau wneud ymdrech arbennig i fynychu cyfarfodydd ychwanegol o'r fath.

BC130-02
6.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes bapur Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau ynghylch ethol Janet Davies i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

**7. Busnes y Dyfodol**

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC128-02 a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Trefnydd nad oedd yn cynnig unrhyw newidiadau.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.3 Fe wnaeth y Pwyllgor nodi datganiad drafft y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ar gyfer busnes y Cynulliad yn yr wythnosau yn dechrau ddydd Mawrth 30 Ebrill, dydd Mawrth 7 Mai a dydd Mawrth 14 Mai.

7.4 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newidiadau i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft.

7.5 Gofynnodd Jocelyn Davies a ellid neilltuo amser ar gyfer datganiad ar y digwyddiadau diweddar yn y Dwyrain Canol. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n ymgynghori â'i gydweithwyr ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Busnes yn y cyfarfod nesaf.

7.6 Gofynnodd Jonathan Morgan a ellid neilltuo amser ar gyfer dadl ar gynnig David Melding ar lwfansau aelodau. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad mai mater i Bwyllgor y Ty oedd hynny.

7.7 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a allai'r rhagamcan o hyd cwestiynau i Brif Weinidog Cymru a Gweinidogion eraill yn y Datganiad Busnes Drafft adlewyrchu hyd gwirioneddol y sesiynau hynny yn y dyfodol.

## 8. Materion a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor gan y Cyfarfod Llawn

8.1 Gwnaeth y Dirprwy Lywydd sylwadau ar hyd y datganiadau a wneir yn y Cyfarfod Llawn. Cyfeiriodd at ddyfarniad y Llywydd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin 2001 y dylai datganiadau fod yn 1000 gair neu 10 munud o hyd neu lai. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe bai e-bost yn cael ei anfon ar ran y Llywydd i atgoffa Gweinidogion am y dyfarniad hwn.
**Gweithredu: Swyddfa Breifat y Llywydd i anfon e-bost.**

## 9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog

BC131-02

9.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried BC131-02, a oedd yn amlinellu'r set gyntaf o newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a oedd yn deillio o'r Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Dywedodd y Clerc ei fod eisoes wedi cael sylwadau Llywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnodd am sylwadau gan y Rheolwyr Busnes eraill. Cytunwyd y dylid ailystyried papur diwygiedig yn y cyfarfod ar 14 Mai.
**Gweithredu: Y Rheolwyr Busnes i anfon unrhyw sylwadau pellach i'r Ysgrifenyddiaeth.**

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

## 11. Unrhyw fater arall

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**